# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

# Ffedereiddio Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy - Ymgynghoriad

Cyfeirnod Achos: (IIA719912426)

Mae adroddiad yr asesiad effaith integredig yn cyflwyno gwybodaeth a sicrwydd ynghylch sut, wrth wneud penderfyniadau, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau mewn perthynas â:

- Blaenoriaethau'r Cyngor (2023-28)
- Ein Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol (2019) Ein Strategaeth Cynnwys (2022-2027)
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Chaffael) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - Safonau Llunio Polisi
- Deddf y Lluoedd Arfog 2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Adran 1 – Gwybodaeth am y Cynnig

### Beth sy'n cael ei asesu:  Ffedereiddio Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy - Ymgynghoriad

Math o Gynnig: Adolygiad neu ad-drefnu gwasanaeth sy'n effeithio ar ein gwasanaethau, cymunedau neu staff, effeithlonrwydd neu gynigion arbed

Disgrifiad o'r cynnig – nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig cyffredinol: Mae'r cynnig hwn i ymgynghori ar y cynigion canlynol ar gyfer Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy (Ysgol Gynradd Gymunedol Garth, Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Pentre)

Opsiwn 1 - Parhau â'r Sefyllfa Bresennol. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r 3 ysgol yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy yn parhau i weithredu fel y maent ar hyn o bryd.

Opsiwn 2 - Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte.  Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn cau ac y byddai disgyblion yn cael cynnig lle mewn ysgol arall.

Prif Randdeiliaid: Mae rhestr ragnodedig o randdeiliaid wedi'i hamlinellu yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 yr ydym yn cadw ato. Rydym hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid eraill yn ychwanegol at y rhestr.

### Ardal Ddaearyddol:

- Gogledd y Waun, Llangollen Wledig

### Data a Gwybodaeth a ddefnyddir i lywio datblygiad y cynnig:

- Data Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Nifer y disgyblion ar y gofrestr
- Rhagamcanion niferoedd disgyblion
- Data lleoedd dros ben, data ariannol

### Canfyddiadau perthnasol allweddol:

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte wedi bod ymhell o dan ei chapasiti (84 o leoedd i ddisgyblion) am 5 mlynedd yn olynol.

Ar hyn o bryd mae 86.90% o gapasiti dros ben yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte (2025). Y capasiti dros ben cyfartalog yn ysgolion cynradd Wrecsam yw 22.1%, data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2025.

Mae rhagolygon disgyblion hyd at 2030 yn rhagweld tuedd barhaus o ostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr yn yr ysgol.

### Sut mae wedi llywio'r cynnig? A oedd yn cefnogi'r cynnig, a sut?

Mae'r data'n cefnogi'r bwriad arfaethedig. Drwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr, y rhagolygon gostyngol yn nifer y disgyblion a'r nifer uchel o leoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte er mwyn diogelu hyfywedd hirdymor Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy.

## Gwasanaethau eraill yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn:

Effaith bosibl ar feysydd gwasanaeth eraill mewn Addysg

## Polisïau neu feysydd gwaith eraill sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (dogfen cod statudol 011/2018).
- Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru
- Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Wrecsam, Cynllun Cyngor Wrecsam
- Fframwaith Trefniadaeth Ysgolion Wrecsam, Polisi Derbyn Ysgolion Wrecsam, Polisi Cludiant Ysgolion Wrecsam

Penderfynwr: Bwrdd Gweithredol

Swyddog Cyfrifol / Teitl y Swydd: Dafydd Ifans / Pennaeth Effeithiolrwydd a Seilwaith Addysg

Arweinydd Asesu / Teitl Swydd Arweinydd Asesu: Carla Hughes / Rheolwr Rhaglen - Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol

Aelod Arweiniol / Portffolio Aelod Arweiniol Y Cynghorydd Phil Wynn / Addysg

## Adran 2 - Asesiadau

### Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor

Mae ein Cynllun Cyngor yn dangos sut mae ein blaenoriaethau'n ein helpu i gyflawni Nodau Llesiant Cymru.

Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y blaenoriaethau Cynllun Cyngor canlynol:

Darparu Gwasanaethau Strydlun Effeithiol a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am ganiatâd i fynd allan i ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ar leihau carbon yn ein hamgylchedd ac a fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i Aelodau Etholedig mewn adroddiad adborth ar ôl yr ymgynghoriad a'i hystyried cyn gwneud

penderfyniad terfynol.

Byddai'r cynnig hwn yn darparu manteision i'r amgylchedd o ran lleihau ôl troed carbon yn sgil llai o wresogi, goleuadau a chynnal a chadw. Mae llai o adeiladau gweithredol yn darparu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol sy'n deillio o ostyngiad yn y defnydd o ynni, yn y gwastraff a gynhyrchir ac mewn defnydd tir anghynaladwy.

## Gwella Addysg a Dysgu

Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y blaenoriaethau Cynllun Cyngor canlynol:

Gwella Addysg a Dysgu

Er mwyn cefnogi ein huchelgeisiau economaidd a llesiant ar gyfer Wrecsam, mae dysgwyr o bob oed yn cyflawni canlyniadau gwell, yn gallu cyflawni eu potensial a dod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu cymuned.

Mae ein dysgwyr yn cael eu cefnogi i ymgysylltu a dangos uchelgais, gan fanteisio i'r eithaf ar sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu newydd i blant a phobl ifanc.

Dylai ein dysgwyr fynychu'r ysgol yn rheolaidd gyda mwy o blant a theuluoedd yn cael eu cefnogi yn gynharach, er mwyn cynyddu presenoldeb, gwella diogelu, lleihau gwaharddiadau a gwella ymddygiad.

Mae ein dysgwyr yn cyfrannu'n weithredol at eu dysgu, yn fwy gwydn, yn mwynhau iechyd a lles gwell, ac yn cael eu cefnogi gan gydweithrediad effeithiol â'n partneriaid.

Mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wella ei ddeilliannau addysg, a bydd anghydraddoldebau mewn deilliannau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn cael eu lleihau.

Mae ein dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad i amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas at y diben ac sy'n caniatáu dewis o addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r datganiadau deilliannau blaenoriaeth uchod trwy:

- Roi datrysiad priodol i ateb y galw lleol am leoedd ysgol yn yr ardaloedd lle mae'r ysgolion wedi'u lleoli
- Cefnogi twf cynaliadwy addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Cymraeg 2050
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai wedi'u paratoi'n well i fodloni'r Cwricwlwm i Gymru newydd
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai'n darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgol gyda mwy o gyd-ddisgyblion, fel y gellir addysgu disgyblion mewn dosbarth o grŵp oedran tebyg
- Galluogi disgyblion i gael mynediad at gyfleoedd cymorth cyfoedion ychwanegol a darparu cysondeb o ran y cwricwlwm, adnabyddiaeth o ddulliau arwain a pharhad gofal i ddisgyblion lleol
- Gwella safonau addysg er budd holl ddisgyblion yr ardal.

## Effaith Carbon

Datganodd Cyngor Wrecsam Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Medi 2019 ac mae wedi ymrwymo i wneud CBSW yn gyngor sero net erbyn 2030.

Er mwyn cyflawni'r targedau a chyflawni ein hymrwymiadau, mae angen i ni sicrhau bod datgarboneiddio wedi'i ymgorffori ym mhopeth a wnawn a rhaid asesu pob cynnig am ei effaith ar garbon.

Os oes Asesiad Effaith Carbon (AEC) wedi'i gynnal, darperir crynodeb isod ac atodir yr AEC llawn i'r adroddiad.

A oes asesiad effaith carbon wedi'i gynnal? Nac oes

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am ganiatâd i fynd allan i ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ar leihau carbon yn ein hamgylchedd ac a fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd. Mae'r cynnig hwn yn debygol o ddarparu manteision i'r amgylchedd o ran lleihau ôl troed carbon yn sgil llai o wresogi, goleuadau a chynnal a chadw. Mae llai o adeiladau gweithredol yn darparu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol sy'n deillio o ostyngiad yn y defnydd o ynni, yn y gwastraff a gynhyrchir ac mewn defnydd tir anghynaladwy.

## Cynnwys

Mae Strategaeth Cynnwys y cyngor yn nodi gweledigaeth y cyngor y bydd gan bob person y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau; y byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phob person ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a lle y bo'n bosibl y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r Egwyddorion Gunning sy'n cefnogi cyfranogiad teg a gwerth chweil.

Yn ogystal, mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried yr angen i gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a chyda'r rhai sydd â diddordeb yn y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau pan fyddwn yn datblygu cynigion ac yn gwneud penderfyniadau.

Ydych chi wedi cydymffurfio â'r gofynion cynnwys perthnasol? Ydyn

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (dogfen cod statudol 011/2018) wrth gynnal unrhyw ymgynghoriadau ar Drefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod Statudol yn cynnwys canllawiau llym y mae'n rhaid cadw atynt ac sy'n cael eu hategu gan yr Egwyddorion Gunning. Rydym yn ystyried yr Egwyddorion Gunning a'r Strategaeth Cynnwys yn rheolaidd wrth ddatblygu ymgynghoriadau trefniadaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd.

Manylion yr ymgysylltu a'r ymgynghori a gynhaliwyd:

Ar gam ffurfiannol, cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gyda rhanddeiliaid perthnasol mewn perthynas â'r cynnig yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u cynllunio cyn cyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 16 Medi 2025. Darperir dogfen ymgynghori lawn i ymgyngoreion ei hystyried ac ymateb iddi. Bydd nifer o sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb ac ar-lein yn cael eu cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg am o leiaf 42 diwrnod, ac mae 20 ohonynt yn ddiwrnodau ysgol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ymgyngoreion:

Aelod Arweiniol Aelod Lleol Pennaeth Cadeirydd Llywodraethwyr

Canfyddiadau allweddol a sut mae'r rhain wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynnig. Bydd y canfyddiadau allweddol yn cael eu dadansoddi a'u cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol mewn dogfen ôl-ymgynghori.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn unigolion rhag triniaeth annheg ac yn hyrwyddo cymdeithas deg a mwy cyfartal.

## Y Ddyletswydd Cydraddoldeb

Pan fydd gennym gynigion i gyflwyno strategaeth, polisi neu arfer newydd, neu adolygu rhai sy'n bodoli eisoes, neu wneud newidiadau neu doriadau i wasanaeth neu wneud penderfyniadau strategol, mae'n ofynnol i ni:

Ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy’n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Ystyried a fyddai ein cynigion yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, a lle mae hyn yn debygol o ddigwydd, rhaid i ni gymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion a nodwyd.

Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil [mewn cyflogaeth yn unig], beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Yng Nghyngor Wrecsam rydym hefyd wedi nodi gofalwyr di-dâl fel grŵp i'w ystyried.

Asesiad o berthnasedd y cynnig hwn i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb:

Mae’r cynnig yn ceisio dileu gwahaniaethu, aflonyddu a phoenydio anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiadau eraill a waherddir dan y Ddeddf. Mae'n cefnogi'r Ddyletswydd Gyffredinol i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltu â'r cymunedau yr effeithir arnynt, dysgwyr a'u teuluoedd. Mae fersiwn hawdd ei ddarllen / i blant o'r ddogfen ymgynghori ar gael ac mae'r brif ddogfen ymgynghori a'r ddogfen i blant ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

Mae effeithiau posibl y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig yn rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn anelu at ddileu neu leihau anfanteision a brofir gan y bobl yr effeithir arnynt oherwydd eu nodweddion gwarchodedig. Rydym yn cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill ac yn annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan yn y broses ymgynghori lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel (er enghraifft nifer y sesiynau galw heibio hygyrch ar wahanol adegau yn ystod y dydd ac ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos).

Rydym hefyd yn cynnig sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Os yw'r cynnig wedi nodi unrhyw effeithiau posibl ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, rhestrir y rhain isod.

CADARNHAOL

NEGYDDOL

Os oes unrhyw gamau wedi'u nodi i wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol posibl / lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl, rhestrir y rhain isod.

Gwahaniaethu Anghyfreithlon

Os bydd y cynnig, er gwaethaf unrhyw gamau lliniaru a nodwyd uchod, yn arwain at unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nodir hyn isod, ynghyd â'r rhesymau pam y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

## Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn golygu bod yn rhaid i ni fel awdurdod lleol feddwl am sut y gall ein penderfyniadau strategol, megis gosod amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i benderfyniadau strategol newydd ac wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol.

A yw'r cynnig hwn yn benderfyniad strategol sy'n gofyn am asesiad o'r effaith bosibl a'r anfantais economaidd-gymdeithasol?  Nac ydy

## Caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, mae'n ofynnol i ni ystyried yr effaith ar y nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig (gan gynnwys gofalwyr); yr effaith ar y Gymraeg; a'r effaith ar ganlyniadau anghyfartal a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn penderfyniadau caffael mawr.

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill, rhaid i ni roi sylw dyladwy i weld a fyddai'n briodol:

i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol (i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da);

nodi amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y Ddyletswydd Gyffredinol.

A yw eich cynnig yn cynnwys comisiynu neu gaffael nwyddau neu wasanaethau, naill ai fel awdurdod neu mewn partneriaeth gomisiynu/gaffael ag eraill? Nac ydy

## Safonau'r Gymraeg - Llunio Polisi

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae'n gwneud darpariaeth, drwy Safonau'r Gymraeg, i (a) hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Safonau Llunio Polisi 88-90 a 95-97 yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi ac ystyried yr holl effeithiau perthnasol ar (a) a (b) ac ystyried sut i lunio'r polisi / penderfyniad polisi fel y byddai'n cefnogi (a) a (b).

Mae Safonau Llunio Polisi 91-93 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fyddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori mewn perthynas â'r polisi / penderfyniad polisi, ein bod yn cynnwys asesiad o'r effeithiau ar (a) a (b) ac yn ceisio barn ar y rhain, ynghyd â safbwyntiau ar sut y gellid llunio'r polisi i beidio â chael unrhyw effeithiau andwyol / cael llai o effeithiau andwyol, a chael effeithiau cadarnhaol / mwy o effeithiau cadarnhaol.

Mae'r cynnig hwn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

Safonau: Gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (88-90) a (95-97) wrth lunio polisi

Disgrifiad: Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar wahân wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg (88-92) wrth lunio polisi.

Safonau: Gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (91-93) wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori.

Disgrifiad: Mae Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ar wahân wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg (88-92) wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori.

A) Os yw'r cynnig wedi nodi unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg / cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, rhestrir y rhain isod.

CADARNHAOL

Effaith Uniongyrchol neu Anuniongyrchol: Anuniongyrchol

Manylion Effaith: Gallai'r cynnig gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg pe baent yn dewis mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg.

Mae Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg (AEG) ar wahân wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 88-92 wrth lunio polisi. Mae'r AEG yn darparu asesiad llawn o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o ganlyniad i'r cynnig dan sylw. Cyfeiriwch at Atodiad 4 sy'n cyd-fynd â'r prif adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol.

Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon? Adborth ymgynghori a data derbyniadau i ysgolion fydd y sylfaen dystiolaeth i bennu a yw hyn yn digwydd.

NEGYDDOL

Os oes unrhyw gamau wedi'u nodi i wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol posibl / lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl, rhestrir y rhain isod.

Os yw'r cynnig wedi nodi unrhyw effeithiau posibl o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, rhestrir y rhain isod.

CADARNHAOL

Effaith Uniongyrchol neu Anuniongyrchol: Anuniongyrchol

Manylion Effaith: Nid yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ysgol cyfrwng Cymraeg. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ganlyniad i'r cynnig. Gallai'r cynnig gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg pe baent yn dewis mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg.

Mae Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg (AEG) ar wahân wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 88-92 wrth lunio polisi. Mae'r AEG yn darparu asesiad llawn o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o ganlyniad i'r cynnig dan sylw. Cyfeiriwch at Atodiad 4 sy'n cyd-fynd â'r prif adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol.

Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon? Nid yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ysgol cyfrwng Cymraeg.

Adborth ymgynghori a data derbyniadau i ysgolion fydd y sylfaen dystiolaeth i bennu a yw hyn yn digwydd.

NEGYDDOL

Os oes unrhyw gamau wedi'u nodi i wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol posibl / lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl, rhestrir y rhain isod.

## Y Lluoedd Arfog

Cyflwynodd Deddf y Lluoedd Arfog 2021 ddyletswydd ar gyrff penodedig, gan gynnwys cynghorau, wrth arfer swyddogaethau penodol, i dalu 'sylw dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n addo y dylid trin y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd, yn deg, ac na ddylai eu gwasanaeth eu rhoi dan anfantais.

Mewn perthynas ag awdurdodau lleol, mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud â rhai gwasanaethau tai ac addysg, a gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan awdurdodau lleol.

A yw'r cynnig hwn yn ymwneud ag unrhyw un o'r swyddogaethau a ddiffinnir yn y Ddeddf?  Nac ydy

## Ffyrdd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygiad cynaliadwy - mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Ddeddf yn nodi pum 'ffordd o weithio' y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.  Rydym wedi ystyried y ffyrdd o weithio yn y ffyrdd canlynol:

Cynnwys - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Rydym yn cynnwys nifer helaeth o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y cymunedau a wasanaethir gan yr ysgolion, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rydym hefyd yn cadw at Strategaeth Cynnwys y Cyngor a'r Egwyddorion Gunning.

Hirdymor - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r anghenion hirdymor.

Mae'r anghenion byrdymor yn cael eu cydbwyso â diogelu anghenion hirdymor Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy trwy wneud defnydd da o'r lleoedd disgyblion sydd ar gael yn yr ardal, tra'n darparu sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a staffio'r dosbarthiadau yn y Ffederasiwn.

Atal – Sut i weithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu, er mwyn ein helpu i gyflawni'r amcanion llesiant.

Nod y cynnig yw atal nifer cynyddol o leoedd dros ben yn yr ysgol dan sylw ac mae'n anelu at ddiogelu hyfywedd Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy yn y tymor hwy.

Integreiddio - Ystyried sut y gall ein hamcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ein hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Bydd y cynnig yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad i amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas at y diben ac sy'n caniatáu dewis o addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn cael eu cefnogi gan gydweithrediad effeithiol â'n partneriaid.

Cydweithredu – Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall, partneriaid neu wahanol rannau o'n sefydliad ein hunain i'n helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant.  Gall hyn hefyd helpu i leihau dyblygu a sicrhau cymaint o fanteision â phosibl.

Ceir cydweithrediad â'r ysgolion dan sylw ac ysgolion eraill yn Wrecsam, Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam, y Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd, Cyrff Llywodraethu ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

## Adran 3 - Gwneud Penderfyniadau ac Adolygu

Sylwer – dim ond ar ôl i'r AEI ddod i ben y bydd yr adran hon yn cael ei chwblhau.

### Penderfyniad i Barhau

Mae'r adran hon yn cofnodi, ar ôl i'r AEI ddod i ben, a yw'r Swyddog Arweiniol a'r Swyddog Cyfrifol yn cytuno bod digon o wybodaeth i alluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i lunio barn wybodus ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig.

Argymhelliad y Swyddog Arweiniol Asesu: Dylech barhau â'r cynnig hyd at y penderfyniad, gan ystyried unrhyw gamau lliniaru a amlinellwyd.

Y rheswm/rhesymau dros yr argymhellion:

Cymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifol i fwrw ymlaen?

### Cofnod o Benderfyniad

Mae'r adran hon yn cofnodi a dderbyniwyd y cynnig ac, os yn berthnasol, pryd y cafodd ei weithredu.

Cynnig wedi'i dderbyn?

Manylion

Dyddiad Penderfyniad Dyddiad Gweithredu

### Adolygu

Nodwch: Dim ond ar ôl gweithredu'r penderfyniad y bydd yr adran hon yn cael ei chwblhau.

Nid yw'r asesiad effaith yn dod i ben pan fydd penderfyniad yn cael ei weithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol i fonitro effaith a / neu effeithiolrwydd camau gweithredu a lliniaru mewn perthynas â'n dyletswyddau Cydraddoldeb a'r Gymraeg, yn ogystal ag ystyried yn ehangach a yw'r cynnig wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion.

Swyddog Adolygu:

Manylion yr Adolygiad:

Dyddiad Adolygu:

Manylion unrhyw gamau lliniaru ychwanegol neu gamau gwella: